Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**
Dyddiad:	**Dydd Mercher, 10 Rhagfyr 2014**
Amser:	**09.30 – 11.27**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/2510

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:	**David Rees AC (Cadeirydd)** **Peter Black AC** **Janet Finch-Saunders AC** **John Griffiths AC** **Elin Jones AC** **Darren Millar AC** **Lynne Neagle AC** **Gwyn R Price AC** **Joyce Watson AC** **Lindsay Whittle AC** **Kirsty Williams AC**
Staff y Pwyllgor:	**Llinos Madeley (Clerc)** **Helen Finlayson (Ail Clerc)** **Sian Giddins (Dirprwy Glerc)** **Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)** **Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)** **Stephen Boyce (Ymchwilydd)** **Amy Clifton (Ymchwilydd)** **Sian Thomas (Ymchwilydd)** **Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**

Trawsgrifiad
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies. Roedd Joyce Watson AC yn dirprwyo ar ei ran.

2 Papurau i'w nodi

2.0a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 a 26 Tachwedd.

2.1 Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: ystyried yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar y gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a chytunodd arno yn amodol ar fân newidiadau.

5 Blaenraglen waith y Pwyllgor

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith a chytunodd i:

- ofyn am friff ffeithiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad ar y *Gronfa Byw'n Annibynnol – trefniadau ar gyfer y dyfodol i gefnogi'r sawl sy'n derbyn taliadau yng Nghymru;*
- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ragor o wybodaeth am gyllid iechyd, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymgymryd â darn o waith ar ddiwygio iechyd; ac
- ymgymryd â darn byr o waith yn canolbwyntio ar weithlu meddygon teulu yng Nghymru.

6 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): ystyried y materion allweddol

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y materion allweddol sydd wedi codi yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon") a chytunodd arnynt.
6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ymestyn yr ymchwiliad er mwyn cymryd tystiolaeth lafar gan swyddogion y Swyddfa Gartref yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2015.

7 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): ystyried yr ymagwedd i graffu yn ystod Cyfnod 1

7.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Black a fydd yn dirprwyo ar ran Kirsty Williams yn ystod busnes ynghylch craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor o'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).
7.2 Ystyriodd y Pwyllgor ei ddull o graffu ar y Bil yng Nghyfnod 1 a chytunodd arno.